Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Public Services Board

**2.00pm, Dydd Mercher 23 Tachwedd 2022**
**Zoom**

**COFNODION**

| **Yn bresennol** | |
|---|---|
| **Enw** | **Corff/mudiad** |
| Y Cynghorydd Darren Price (Cadeirydd) | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Noelwyn Daniel | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Mydrian Harries | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Y Cynghorydd Elwyn Williams | Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Daron Herbert | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Yr Uwch-arolygydd Stuart Bell | Heddlu Dyfed Powys |
| Carys Morgans | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| Michael Thomas | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Marie Mitchell | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin |
| Wyn Morris | Adran Gwaith a Phensiynau |
| Catherine Mealing-Jones | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Andrew Charles | Llywodraeth Cymru |

| **Hefyd yn bresennol** | |
|---|---|
| **Enw** | **Corff/mudiad** |
| Gwyneth Ayers | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Llinos Evans | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Kate Harrop | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Wendy Phillips | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Amy Richmond-Jones | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Dafydd Llywelyn | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| Sarah Hopkins | Cynnal Cymru |
| Gareth Jones | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Richard Walters | Cyngor Sir Caerfyrddin |

## 1. Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

| **Ymddiheuriadau** | |
|---|---|
| **Enw** | **Corff/mudiad** |
| Barry Liles | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| Huwel Manley | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Andrew Cornish | Coleg Sir Gâr |

| | |
|---|---|
| Maria Battle | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Jo McCarthy | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Yr Uwch-arolygydd Clark Jones-John | Heddlu Dyfed Powys |
| Christine Harley | Gwasanaeth Prawf |

Croesawodd Darren Price, y Cadeirydd, bawb i'r cyfarfod rhithiol.

## 2. Cyflog Byw Go Iawn

Rhoddodd Dafydd Llywelyn, Cadeirydd Grŵp Llywio Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Sarah Hopkins, Cyfarwyddwr Cynnal Cymru gyflwyniad ar y Cyflog Byw Go Iawn a'r gwaith a wnaed yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Darparwyd trosolwg:

- £10.90 yw y Cyflog Byw Go Iawn presennol, mae'n cael ei gyfrifo'n flynyddol gan sefydliad annibynnol, Resolution Foundation, a'i oruchwylio gan Gomisiwn Cyflog Byw. Mae'n ystyried costau byw, yn enwedig eleni gyda'r cynnydd mewn costau ynni, trafnidiaeth, rhent, costau gofal plant ac ati.
- Mae'r Cyflog Byw Go Iawn yn cael ei dalu i bob gweithiwr dros 18 mewn sefydliadau sy'n gefnogol i'r fenter tra bod y cyflog byw cenedlaethol yn cael ei dalu i bob gweithiwr dros 23 oed.
- Ers Covid, mae cynnydd wedi bod yn y momentwm a'r diddordeb yn nifer y cyflogwyr achrededig, gyda bron i 500 yng Nghymru ar hyn o bryd.
- Yn seiliedig ar ddata'r ONS, ar hyn o bryd mae 144,000 o weithwyr ar draws Cymru ddim yn derbyn cyflog byw go iawn.
- Hyd yma, mae'r achrediadau wedi codi bron i 18,000 o weithwyr ar y Cyflog Byw Go Iawn ac wedi rhoi bron i £67 miliwn yn ôl i bocedi gweithwyr ar gyflogau isel.
- Mae Llefydd Cyflog Byw yn ardaloedd ar draws y DU sy'n hyrwyddo'r Cyflog Byw Go Iawn ac sydd â chynllun gweithredu tair blynedd.
- Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru fydd rhanbarth Cyflog Byw Go Iawn cyntaf yng Nghymru.
- Mae'r cynllun gweithredu wedi bod mewn lle ers naw mis.
- Mae'r sectorau wedi'u targedu yn cynnwys, amaethyddiaeth, twristiaeth, bwyd, manwerthu, lletygarwch a chyhoeddus.
- Darparwyd data i gefnogi'r angen am Gyflog Byw Go Iawn.
- Ar draws y rhanbarth, mae 103 o gyflogwyr achrededig sydd wedi arwain at godi 2,762 o weithwyr.
- Ar draws Sir Gaerfyrddin, mae 28 o gyflogwyr achrededig, ac mae hynny wedi arwain at godi 436 o weithwyr.
- Mae yna fuddion cyflogwr i'r Cyflog Byw Go Iawn hefyd, h.y. gwell recriwtio a chadw staff a chysylltiadau â lles ac iechyd staff ehangach.
- Mae disgwyl adroddiad manwl gan Brifysgol Caerdydd cyn y Nadolig a fydd yn cynnwys manteision i gyflogwyr ar draws sectorau.
- Mae'r Cyflog Byw Go Iawn yn cefnogi sawl Nod Llesiant.

Rhoddodd nifer o aelodau ddiweddariad ar y sefyllfa bresennol:

- Mae GTACGC wedi cynnal ymarfer gwerthuso swyddi a bydd strwythur cyflog newydd yn cael ei gyflwyno i'w cyfarfod Bwrdd ym mis Rhagfyr.
- Mae CNC eisoes wedi sicrhau achrediad Cyflog Byw Go Iawn.
- Mae CAVS yn talu'r Cyflog Byw Go Iawn ac yn edrych i wneud cais am achrediad.

Gofynnwyd cwestiynau am yr effaith gyda chontractwyr a'r gadwyn gyflenwi ehangach. Eglurwyd y disgwyliad a nodwyd y gellid datblygu hyn dros gyfnod o amser.

Diolchodd Darren Price i Dafydd Llywelyn a Sarah Hopkins am eu cyflwyniad.

| GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cysylltu â Dafydd Llywelyn os oes diddordeb mewn bod yn rhan o'r Grŵp Llywio Cyflog Byw Go Iawn | Pawb |

**3. Y Rhyngrwyd Pethau**

Rhoddodd Gareth Jones, Rheolwr Rhaglen Ddigidol, Bargen Ddinesig Abertawe, gyflwyniad ar Y Rhyngrwyd Pethau, sy'n gysyniad o gysylltu pethau nad ydynt wedi eu cysylltu o'r blaen.

- Y nod yw darparu data i wneud penderfyniadau. Yr enghraifft gyntaf o Rhyngrwyd Pethau oedd peiriant gwerthu Coca-Cola yn hysbysu pryd mae angen ei ail-lenwi.
- Rhoddwyd enghreifftiau o ble mae hyn yn cael ei ddefnyddio yn ein bywydau bob dydd, e.e synwyryddion mewn biniau yn anfon signal pan fo angen eu gwagio. Mae Rhyngrwyd Pethau yn ddiwydiant sy'n tyfu.
- Mae yna cyfryngau cysylltedd amrywiol e.e. 3G, 4G, 5G, di-wifr, band eang a LoRaWAN. Gellir cysylltu LoRaWAN yn syml ac yn rhad, gan ddefnyddio lled band isel, gyda'i fantais yn ystod hir, pŵer isel, lefel fach o ddata a chost isel.
- Ar draws y rhanbarth, mae dros 240 o borthfeydd LoRaWAN, gyda Sir Gaerfyrddin yn arwain y ffordd.

Mae Heddlu Dyfed Powys yn enghraifft dda o sut mae defnyddio'r dechnoleg ar gyfer prosiectau amrywiol.

Awgrymodd Dafydd Llywelyn y gallai porth gael ei leoli ym Mhencadlys yr Heddlu. Cadarnhawyd bod trafodaethau cychwynnol mewn perthynas â hyn wedi digwydd.

Diolchodd Darren Price i Gareth Jones am ei gyflwyniad.

| GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cysylltwch â Gareth Jones i drafod cyfleoedd ar gyfer Phyrth LoRoWAN | Pawb |
| Cadarnhau y diweddaraf ar y porth ym Mhencadlys yr Heddlu, trefnu i gydweithiwr TG gysylltu â Heddwyn Thomas, DPP, i symud ymlaen ac adborth i Dafydd Llywelyn | Kate Harrop |

**4. Costau Byw**

Rhoddodd Noelwyn Daniel ddiweddariad ar y digwyddiad a gynhaliwyd yn Llanelli yn ddiweddar. Roedd tua 100 yn bresennol o wahanol sefydliadau. Y prif ganlyniadau oedd:

- Angen codi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.
- Cyfleu neges gyson.
- Sicrhau bod pob cyswllt yn cael eu uchafu.
- Mae diffyg cydlynu o gwmpas mynediad i waith i bobl ifanc e.e. prentisiaethau, rhaglenni graddedigion ac ati.
- Angen gwella gwybodaeth am gludiant sydd ar gael.
- Nid yw pob preswylydd â chyswllt digidol ac felly'n colli allan ar wybodaeth a chefnogaeth allweddol.

Y camau nesaf

- Amlygu a hyrwyddo'r swm helaeth o fuddion sydd heb eu hawlio
- Cefnogi banciau bwyd
- Cymorth gyrfa mewn ysgolion
- Edrych ar ffyrdd traddodiadol o gyfathrebu i gyrraedd y rhai nad ydynt â chyswllt digidol.
- Rhannwch arferion gorau a mapio beth mae pawb yn ei ddarparu.
- Ailsefydlu Hwb Fach y Wlad yn ychwanegol i'r tair Hwb a leolir yn y prif drefi.
- Gwella lefel y gefnogaeth a ddarperir yn y tair Hwb trefol drwy gael swyddogion ymroddedig ychwanegol e.e. tai, cyflogadwyedd, safonau masnach, Canolfan Cyngor ar Bopeth. Bydd hyn yn dechrau ar 1 Rhagfyr.

| GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cylchredeg crynodeb o adborth o'r digwyddiad Costau Byw (26.10.2022) | Tîm Cefnogi'r BGC |
| Cysylltu â Noelwyn Daniel os oes diddordeb mewn darparu cymorth a chyngor o fewn y gwasanaeth cwsmeriaid Hwb yn Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli. | Pawb |

## 5. Cofnodion a Materion yn codi

28 Medi 2022

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

Nodwyd bod y system fynediad ar gyfer y swyddfa yn Llandeilo wedi ei sefydlu a'i bod bellach ar gael ar gyfer gweithio aml-asiantaeth.

Cofnod o'r Camau Gweithredu

Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu blaenorol.

| GWEITHREDU | |
|---|---|
| Rhoi gwybod i staff fod swyddfa Llandeilo ar gael i staff ei defnyddio | Pawb |

## 6. Unrhyw fater arall

Cafodd y ddwy eitem ganlynol eu dosbarthu er gwybodaeth:

- Integreiddio Chwarae a Blynyddoedd Cynnar
- Cyfleoedd Grant Amgylcheddol

## 7. Cyfarfodydd y dyfodol

- 19 Ionawr 2023 (1:30yp)
- 28 Chwefror 2023 (2yp)
- 25 Ebrill 2023 (2yp)